

# Cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat

<b>At ddefnydd y swyddfa'n unig</b>	<b>Gwiriwyd</b>
<b>Dogfen gofrestru'r cerbyd</b>	
<b>Tyst M.O.T.</b>	
<b>Tyst Trosi L.P.G</b>	
<b>Yswiriant</b>	
<b>Dyddiad y prawf:</b>	LLWYDDO / METHU

ADNEWYDDU

CAIS NEWYDD

TROSGLWYDDO

PERCHENOGAETH

*Ticiwch*

## PERCHENNOG/PERCHNOGION Y CERBYD

Os yw'r cerbyd yn gar hurio yswiriwr, rhaid rhoi manylion y gyrrwr trwyddedig yn Adran 2

Enw(au):	1. Perchennog / Perchennog cofrestredig	2. Perchennog / Gyrrwr Trwyddedig
Cyfeiriadau:		
Rhifau ffôn:		

## MANYLION Y DRWYDDED

Rhif plât	
Dyddiad y daw'r drwydded i ben	

## MANYLION Y CERBYD

Rhif cofrestru:	
Gwneuthuriad a math y cerbyd:	
Maint ciwbig yr Injan a Math o Danwydd: (Disel, Petrol, LPG - os yw'n LPG bydd angen y Dystysgrif Trosi)	
Rhif yr Injan:	
Rhif y siasi:	
Nifer y seddi sefydlog i deithwyr:	
Ydy'r cerbyd yn medru cludo cadair olwyn?	Ydy* / Nac Ydy
Oes system TCC yn y cerbyd? <b>Rhaid cael cymeradwyaeth CBSW cyn gosod system TCC yn y cerbyd.</b>	

O dan adrannau 165 a 167 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n drosedd i yrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat **dynodedig** wrthod cludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn, peidio â chynnig y cymorth priodol iddynt neu godi tâl ychwanegol arnynt.

Os nad chi'n sy'n gyrru'r cerbyd dynodedig, yna rhowch wybod i'r sawl sydd yn ei yrru am eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Bydd cerbydau sydd wedi'u dynodi'n gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Os yw eich cerbyd(au) chi yn diwallu'r meini prawf, bydd(ant) yn cael ei gynnwys (eu cynnwys) ar y rhestr.

Mewn rhai achosion efallai na fydd gyrrwr yn gallu diwallu gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ar sail feddygol. Yn yr achos hwn dylent wneud cais am Dystysgrif Eithrio Meddygol. Mae ffurflen gais ar gael drwy gysylltu â [licensing@wrexham.gov.uk](mailto:licensing@wrexham.gov.uk).

Dyddiad cafodd y System TCC ei chymeradwyo gan Swyddogion Gorfodi Trwyddedu CBSW	
--	--

### DOGFENNAU'R CERBYD

Natur yr yswiriant a'r dyddiad adnewyddu	
--	--

Rhif y dystysgrif M.O.T.	
--------------------------	--

Dyddiad a lleoliad y prawf M.O.T.	
-----------------------------------	--

### GWEITHREDWR ARFAETHEDIG

Enw a chyfeiriad y Gweithredwr Hurio Preifat y byddwch yn gweithredu iddo.	
--	--

<b>Sylwer Rhaid i'r Gweithredwr Hurio Preifat fod yn drwyddedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.</b>	
---	--

YR WYF I / YR YDYM NI'N DATGAN bod yr atebion uchod yn gywir ym mhob agwedd. Fi/Ni yw unig berchennog/berchnogion y cerbyd dan sylw a fi/ni yw'r unig rai sy'n cadw, cyflogi neu'n gosod y cerbyd i'w hurio.

Yr wyf i / yr ydym ni wedi darllen a deall Gofynion y Cerbyd / Amodau'r Drwydded.

1. Llofnod ..... 2. Llofnod: .....

Dyddiad: ..... Dyddiad: .....

Os gwnewch ddatganiad ffug yn fwriadol neu'n esgeulus neu os hepgorwch unrhyw wybodaeth bwysig o'r cais hwn, gallech fod yn troseddu a gellir eich dirwyo hyd at £400.

Mae'n bosib y bydd y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei rhannu gydag adrannau neu sefydliadau eraill er mwyn i ni allu darparu gwasanaeth i chi. Mae rhagor o fanylion ar gael ar yr adran Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

Dylid gwneud pob sic yn daladwy i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Llenwch a dychwelwch y ffurflen hon i [taxiadmin@wrexham.gov.uk](mailto:taxiadmin@wrexham.gov.uk) neu ei hanfon drwy'r post i'r Isadran Drwyddedu, Depo Cludiant Adran yr Amgylchedd, De Ffordd yr Abaty, Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam LL13 9PW.

(23/12/21)

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**  
**GOFYNION CERBYDAU HURIO PREIFAT**

- 1 a) Rhaid i'r cerbyd gael pedair olwyn ac o leiaf pedwar drws. Rhaid i'r drysau gynnwys dau ddrws ar yr ochr agosaf, ac ochr agored y cerbyd ac nid yw'n cynnwys drysau cefn Codi / cist. Nid yw'r gofyniad am isafswm o bedwar drws yn berthnasol i fws mini gydag eil a adeiladwyd i bwrpas.  
b) Rhaid i'r cerbyd fod ag olwyn sbâr ac offer a chyfarpar digonol i alluogi gosod yr olwyn sbâr petai ddifrod neu byncjar. Lle nad yw'r gwneuthurwr yn darparu olwyn sbâr rhaid darparu Teiar Rhedeg Fflat / Erosol Ewyn yn y cerbyd.
- 2 Rhaid i faint peiriant y cerbyd fod o leiaf 1400cc.
- 3 Rhaid cyflwyno cerbydau i'w harchwilio mewn cyflwr glân ac addas ar gyfer y ffordd, ac ni ddylai fod yna unrhyw rwd ar gorff y cerbyd.
- 4 Ni chaniateir cyflwyno cerbydau i gael eu harchwilio os ydynt wedi eu difrodi mewn damwain, a rhaid rhoi gwybod i'r Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio am unrhyw ddifrod o fewn 72 awr i'r difrod gael ei achosi.
- 5 Rhaid i'r cerbyd yrru ar y dde **ac eithrio ceir estynedig limousine**.
- 6 Ni ddylai'r cerbyd fod o fath, cynllun nac ymddangosiad a fyddai'n peri i rywun gredu bod y cerbyd yn gerbyd hacni. **Ni fydd Cerbydau â Manyleb Hacni', yn dderbyniol**.
- 7 Rhaid i'r cerbyd allu cludo o leiaf pedwar o deithwyr yn ychwanegol at y gyrrwr, a dim mwy nag wyth teithiwr. Rhaid i'r seddi ôl fod wedi eu cynhyrchu a chael gwregysau diogelwch priodol ar gyfer pob unigolyn. Isafswm lled derbyniol rhan o sedd fesul unigolyn yw 410 milimetr ar bwynt lletaf y sedd, a all weithiau gynnwys adrannau anghyfartal. **Mae 'Limousines' i gael isafswm lle i chwech eistedd ac uchafswm o wyth**.
- 8 Rhaid i'r cerbyd a'i holl ffitiadau a chyfarpar fod yn effeithiol, diogel a glân a dylent gydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai a geir yn y Rheoliadau Cerbydau Modur (Cynhyrchiad a Defnydd).
- 9 Rhaid i seddi'r cerbyd fod wedi eu clustogi'n briodol heb unrhyw ddifrod iddynt.
- 10 Rhaid i lawr y cerbyd gael ei orchuddio â charped neu orchudd priodol arall.
- 11 a) Rhaid cael digon o le yn y cerbyd i gario bagiau teithwyr a rhaid i'r lle hwn fod yn lân ac yn ddwrglos. **Ni ellir gosod rac ar y to**.  
b) Gellir gosod blwch ar y to os:  
i) yw'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Traffig y Ffordd (Adeiladu a Defnydd) ac os yw'n briodol ar gyfer math o gerbyd a ddefnyddir.  
ii) yw'n gynhwysydd caeedig (nid yn rac to agored â gorchudd rhydd).  
iii) yw'n cael ei ddefnyddio i gario bagiau ychwanegol megis clybiau golff, bagiau mawr ac ati, ac nid ar gyfer cludo nwyddau nac anifeiliaid byw.  
iv) yw'r huriwr gyda'r cerbyd ar adeg defnyddio'r blwch to.  
v) nad yw unrhyw ran o'r blwch na'i ffitiadau'n parhau ar y cerbyd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio i gludo bagiau ychwanegol.  
vi) nad oes hysbysebion, geiriau na rhifau ar y blwch ei hun.  
c) Ni ddylai telers gael eu defnyddio gan unrhyw gerbyd hurio preifat.
- 12 a) Rhaid i'r cerbyd fod â diffoddwr tân powdr sych effeithiol sy'n pwysu o leiaf 1 kg. Bydd y diffoddwr wedi ei osod mewn man nad yw'n tarfu ar reolaeth y cerbyd ac mewn man na all aelod o'r cyhoedd amharu arno.  
b) Rhaid i'r diffoddwr tân gael gwasanaeth blynyddol gan archwilydd cymwys a rhaid i gofnod priodol o'r archwiliad fod ar gael gyda'r dyddiad arno.
13. Rhaid i'r cerbyd fod â blwch cymorth cyntaf fel a ganlyn:  
Blwch cymorth cyntaf sy'n cynnwys:  
i) chwe rhwymiad gludiog gwrth-heintiol a lapiwyd yn unigol (plasteri)  
ii) un rhwymyn mawr gwrth-heintiol heb feddyginiaeth  
iii) Dau rwymyn trionglog  
iv) dau bin cau  
v) weips gwlyb a lapiwyd yn unigol
- yn y cerbyd bob amser wedi ei osod yn ofalus yng nghist y cerbyd i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Ni fydd gofyn i Yrwyrr Hurio Preifat roi triniaeth cymorth cyntaf.
- 14 Rhaid i unrhyw fesurydd cofnodi pris y daith yn y cerbyd fod mewn man nad yw'n weladwy tu allan i'r cerbyd, ond sy'n amlwg iawn i'r teithwyr tu mewn.
- 15 Os trwyddedir y cerbyd ar hyn o bryd gan y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio, bydd gofyn gosod plât y drwydded a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddiogel tu allan i flaen a chefn y cerbyd mewn man amlwg ac mewn ffordd sy'n galluogi unrhyw Swyddog Awdurdodedig neu Gwnstabl i'w dynnu i ffordd yn rhydd.

- 16 a) Bydd arwydd gludiog yn cael ei ddarparu gan y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio i gael ei arddangos ar frig dwy ffenestr y ddau ddrws ffrynt, a'r drwsau cefn i'r teithiwr ei weld yn amlwg. Maint yr arwydd fydd 180mmx130mm fan bellaf a bydd yn cynnwys y wybodaeth a nodir gan y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio.
- b) Caniateir dangos enw Gweithredwr y cerbyd, rhif ffôn ac / neu gyfeiriad eu gwefan ar y ffenestr flaen a ffenestr ôl y cerbyd. Ni ddylai unrhyw arwydd amharu ar olwg neu effeithio ar ddiogelwch. Ni chyfeirir at y gair "Cab" na "Taxi".
- c) Gellir arddangos ar ochr, boned a chist / drws cefn y cerbyd enw, rhif ffon a / neu gyfeiriad gwefan y Gweithredwr y mae perchennog y cerbyd yn gweithio gydag ef. Ni fydd unrhyw gyfeiriad at y gair "Cab" neu "Tacsî". Caniateir y geiriau "Tapia'r Ap", i'w harddangos yn ddwyieithog.
- d) Caniateir logos cwmni'r Gweithredwr. Gyda'r eithriadau uchod, ni ddylid arddangos unrhyw arwyddion, hysbysiadau, hysbysebion, platau, marciau, rhifau neu arwyddluniau na dyfeisiau o gwbl ar y cerbyd, yn y cerbyd neu oddi yno, ac eithrio fel y bo'n ofynnol gan unrhyw ddarpariaeth statudol o'r amodau hyn, neu gydag awdurdodiad ysgrifenedig y Cyngor o flaen llaw.
- e) Dangos Cerdyn Adnabod yn y Cerbyd Hurio Preifat a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol y tu mewn i'r ffenestr flaen, gan ddangos adnabyddiaeth y gyrrwr o'r tu mewn i'r cerbyd.
- 17 Os trwyddedir y cerbyd ar hyn o bryd gan y Cyngor ar gyfer hurio preifat, rhaid i rif y drwydded a nifer y teithwyr a ganiateir gan y drwydded i gael eu cludo yn y Cerbyd fod yn glir y tu mewn i'r cerbyd er mwyn i deithwyr fod yn gallu eu gweld bob amser.
- 18 Rhaid i'r cerbyd feddu ar bolisi yswiriant neu bolisi diogelwch arall bob amser sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI Deddf Traffig y Ffyrdd 1988.
- 19 Rhaid i'r cerbyd feddu ar dystysgrif prawf MOT ddilys (os yw hyn yn briodol) a thrwydded ffordd gyfredol.
- 20 Bydd gan bob sedd yn y cerbyd wregys ddiogelwch.
- 21 Rhaid i drosi LPG (Nwy Petrolwm Hylifol) gario Tystysgrifau Trosi LPG a ddarparwyd gan beiriannydd cymwys.
- 22 Rhaid i ddeilydd y drwydded roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig cyn gosod system TCC yn y cerbyd. Ni fydd systemau TCC mewn cerbydau yn recordio sain, ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â thelerau'r Polisi Gosod a Defnyddio Systemau TCC mewn Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat. Bydd perchennog y cerbyd yn sicrhau bod arwyddion priodol wedi eu harddangos yn y cerbyd, er mwyn iddynt fod yn weladwy tu mewn a thu allan i'r cerbyd yn unol â'r polisi.
- 23 Cerbydau sydd yn medru cludo cadeiriau olwyn - Rhaid i gerbydau a addaswyd i gario cadeiriau olwyn gael y gymeradwyaeth berthnasol (ar ôl addasiad y cerbyd) a dogfennau i wirio hyn - Gweler Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer cerbydau sydd yn medru cludo cadeiriau olwyn.

(05/02/2019)

**24 Amodau ychwanegol ar gyfer ceir limousine estynedig:-**

- a) Rhaid i'r cerbyd lwyddo mewn arolygiad Cymeradwyaeth Cerbyd Sengl (at 2009)/Cymeradwyaeth Cerbyd Unigol (o 2009 ymlaen) o'i gynllun a gwneuthuriad mewn gorsaf brofi'r Arolygiaeth Cerbydau. Rhaid cyflwyno'r Dystysgrif Gymeradwyaeth neu'r Dystysgrif Gydymffurfio i'r Awdurdod hwn ynghyd â dogfen gofrestru'r DVLA (V5) a thystiolaeth o ddyddiad gwneuthuriad y cerbyd.
- b) Ar yr hiraf ni fydd hyd y cerbyd yn hirach na 120"/3048mm.
- c) Ni fydd teithwyr yn eistedd yn nhu blaen y cerbyd.
- d) Rhaid i'r cerbyd feddu ar deiars a bennir gan Ford USA h.y. cerbydau a gofrestrwyd cyn 1998 – 235/75R 15 108S (BF Goodrich Extra Load neu gyfwerth). Rhaid i fersiynau o 1998 feddu ar 225/70R 16 107T (wedi eu hatgyfnerthu).
- e) Bydd unrhyw wydr tywyll yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a osodir allan gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Gweithredwyr Cerbydau (VOSA). Gall y rhan ar gyfer teithwyr gael gwydr wedi ei dduo. Rhaid i'r holl wydr tywyll neu ddu, gael ei osod yn unol â'r safonau yn y man cynhyrchu, ac ni fydd unrhyw newidiadau sy'n groes i'r safonau hyn yn dderbyniol.
- f) Ni chaniateir unrhyw fath o adloniant neu weithgaredd o unrhyw fath heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod hwn.
- g) Rhaid i gerbyd sy'n cael ei neilltuo ar gyfer plant dan 16 oed yn unig gynnwys rhiant/gwarcheidwad neu hebryngwr a wiriwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Cwblheir datganiad gan y rhiant/gwarcheidwad sy'n gyfrifol am y daith cyn dechrau'r daith a fydd yn rhoi manylion yr unigolion sy'n teithio, ac enw a manylion cyswllt yr unigolyn a drefnodd y cerbyd. Rhaid i'r gyrrwr ddangos copi o'r ffurflen hon.
- h) Gellir gofyn i gerbydau gael prawf i wirio am flinder metel yn ôl doethineb yr Awdurdod hwn. Y Gweithredwr fydd yn talu am gost y prawf hwn.
- i) Bydd diodydd alcoholig a ddarperir yn y cerbyd dan delerau trwydded briodol sy'n ymwneud â gwerthu neu gyflenwi alcohol. Ar gyfer grwpiau o deithwyr dan 18 oed, rhaid defnyddio gwydrau a photeli plastig a rhaid cloi diodydd alcoholig neu eu tynnu o'r cerbyd cyn dechrau ar y daith.
- j) Bydd yr amodau arferol sy'n ymwneud â thrwyddedu Gweithredwyr a Gyrrwr yn berthnasol.

**Sylwer nad oes gan Gyngor Wrecsam y cyfleusterau i gyhoeddi Tystysgrifau MOT i Limousines.**

**Trefnu Profion Limousine- Cyfeiriwch bob ymholiad yn uniongyrchol at y Rheolwr Cludiant.**